



Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 11 Mai 2016

Perchennog y polisi: Ysgrifenyddiaeth y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 1.0

Dyddiad adolygu: 11 Mai 2018

Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru

Cyflwyniad

1. Mae corff llywodraethu Prifysgol Aberystwyth, y Cyngor, wedi cymeradwyo'r cod hwn, y 'Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru' (y 'Cod'), er mwyn cydymffurfio â'i dyletswydd o dan Adran 43 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986.
2. Caiff y Cod hwn ei adolygu'n flynyddol i sicrhau y parheir i gydymffurfio â'r Ddeddf ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall. Cyflwynir unrhyw ddiwygiadau arfaethedig o natur sylweddol i'r Cyngor eu cymeradwyo'n ffurfiol. Caiff mân ddiwygiadau canlyniadol eu hymgorffori wrth adolygu'r Cod yn flynyddol.
3. O dan Adran 43 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 mae'n rhaid i gorff llywodraethu'r Brifysgol gymryd y camau hynny sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau y diogelir rhyddid aelodau, myfyrwyr a staff y sefydliad a "siaradwyr gwadd" i lefaru, a chyhoeddi 'Cod Ymarfer' i hwyluso camau i gyflawni'r gofyniad hwn.
4. Mae Adran 26(1) o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn ei gwneud yn ddyletswydd ar Brifysgolion i roi sylw dyledus i'r angen i atal rhai unigolion rhag cael eu denu at derfysgaeth (y 'Ddyletswydd Atal'). Mae fersiwn gyfredol y Cod wedi'i hadolygu i sicrhau y cydymffurfir â'r Ddeddf hon.
5. Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i gyfle cyfartal. Yn ôl Erthygl XII yn Siarter Frenhinol Atodol 2014 y Brifysgol: "Bydd addasrwydd ar gyfer penodiad i unrhyw Swydd, cyflogaeth neu aelodaeth o'r Cyngor, y Senedd, y Llys neu unrhyw gorff arall yn y Brifysgol, ac addasrwydd ar gyfer ymgymryd â chwrs astudio neu ar gyfer derbyn myfyrwyr i unrhyw gwrs astudio, neu ar gyfer dyfarniad unrhyw un o anrhydeddau academiaidd y Brifysgol, yn seiliedig ar egwyddor cyfle cyfartal ac yn unol â holl ddarpariaethau'r gyfraith ac arfer da."
6. Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu egwyddor rhyddid i lefaru a rhyddid mynegiant o dan y gyfraith. Yn unol â Statud 9(2) Statudau'r Brifysgol 2014, "bydd gan y staff y rhyddid i herio safbwyntiau uniongred a chyflwyno syniadau a safbwyntiau a hynny heb eu rhoi eu hunain mewn perygl o golli eu swyddi na'u breiniau".
7. Ni fydd dim yn y Cod hwn yn effeithio ar hawliau unigolyn i gymryd camau at ddibenion gweithredu diwydiannol cyfreithlon neu brotestio heddychlon.

Y Swyddog Awdurdodi

8. Yn rhan o'r cyfrifoldeb am weinyddiaeth y Brifysgol, bydd y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) yn gyfrifol am holl safleoedd y Brifysgol ac am gadw trefn. Mae gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) awdurdod mewn sefyllfaoedd o argyfwng i'w gwneud yn ofynnol i bobl, am reswm da, beidio ag ymgynnull ar safleoedd y Brifysgol (gan gynnwys neuaddau preswyl, tiroedd, caeau chwarae, ystafelloedd gweddio a safleoedd adloniant eraill, ac unrhyw safleoedd eraill y mae gan y Brifysgol deitl neu feddiant arnynt, drwy rydd-ddaliad, prydles, trwydded neu fel arall), gadael safleoedd y Brifysgol, peidio â rhoi caniatâd i gynnal cyfarfodydd, neu eu gorfodi i roi terfyn ar gyfarfodydd.

9. Mae'r Cyngor wedi penodi'r Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) yn 'Swyddog Awdurdodi' y Brifysgol yng nghyd-destun y Cod hwn, a chaiff y Swyddog Awdurdodi ddirprwyo'r awdurdod hwn yn llawn neu'n rhannol i aelodau eraill o staff y Brifysgol.
10. Yn unol ag Adran 43(8) o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986, bydd pob cyfeiriad at safleoedd y Brifysgol yn cynnwys y rhai a reolir gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth. Pan fo cyfarfod neu ddigwyddiad hysbysadwy i'w gynnal ar safleoedd a reolir gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, caiff y mater ei ystyried yn unol â'r polisi a fabwysiadwyd gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ar faterion o'r fath, gan sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth a nodir uchod.

Cynnal Cyfarfodydd a Digwyddiadau

11. Mae'n ddyletswydd ar y trefnwyr i sicrhau nad oes dim tor cyfraith na thorri Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol wrth baratoi at gyfarfod neu ddigwyddiad neu wrth gynnal cyfarfod neu ddigwyddiad. Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaeth i atal ymddygiad sy'n debygol o beri tor heddwoch neu annog gweithredoedd anghyfreithlon, gan gynnwys troseddau annog terfysgaeth a gwahodd cefnogaeth i sefydliad terfysgol sydd wedi'i wahardd (yn unol â'r hyn a amlinellir yn Neddf Terfysgaeth 2006).
12. Mae'n ddyletswydd ar Gadeirydd y cyfarfod cyhyd ag y bo hynny'n bosib i sicrhau bod y gynulleidfa ac unrhyw siaradwyr yn gweithredu'n unol â'r gyfraith ac â'r Cod hwn yn ystod y cyfarfod. Os ceir ymddygiad anghyfreithlon neu ymddygiad sy'n torri Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol, mae'n rhaid i'r Cadeirydd roi rhybuddion priodol, ac os parheir i weithredu'n anghyfreithlon neu dorri'r rheolau, rhaid i'r Cadeirydd ei gwneud yn ofynnol i'r stiwardiaid neu'r staff diogelwch orfodi'r unigolion dan sylw i adael neu eu symud oddi yno.
13. Ni cheir mynd ag eitemau na gwrthrychau i'r adeilad lle cynhelir y cyfarfod, na mynd â hwy i unman arall ar dir y Brifysgol na'u defnyddio ar dir y Brifysgol, lle bwriedir iddynt beri anaf neu ddifrod neu lle gallent fod yn debygol o beri anaf neu ddifrod.
14. Rhaid gadael safleoedd a ddefnyddir i gynnal cyfarfodydd neu weithgareddau yn lân ac yn daclus, ac os na wneir hynny gellir codi tâl ar y trefnwyr am waith glanhau ac atgyweirio ychwanegol y mae'n rhaid ei wneud yn sgil hynny. Mae'n bosib y gofynnir am daliad ymlaen llaw neu dystiolaeth o allu i dalu'r costau hyn.

Awdurdodi cyfarfodydd a digwyddiadau hysbysadwy

15. O dan y Cod hwn, bydd cyfeiriadau at gyfarfodydd a digwyddiadau yn cynnwys, ymhlith pethau eraill: darlithoedd, seminarau, cyfarfodydd pwyllgor, a pherfformiadau cerddorol a theatrig, a gynhelir ar safleoedd y Brifysgol neu a drefnir gan y Brifysgol mewn manau eraill.
16. Er mwyn i gyfarfod neu ddigwyddiad gael ei gynnal neu ddigwydd ar safleoedd y Brifysgol rhaid trefnu ymlaen llaw drwy'r Athrofa neu'r adran gwasanaeth briodol.
17. Mae digwyddiadau hysbysadwy'n cynnwys unrhyw gyfarfod neu ddigwyddiad arall lle mae'n debygol na fydd siaradwr yn gallu mynd i mewn ac allan o'r cyfarfod neu'r digwyddiad yn ddiogel a/neu draddodi ei araith yn ddiogel, a lle bernir bod cyfarfod neu ddigwyddiad yn groes i gyfle cyfartal neu gydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Atal.

18. Gall digwyddiadau ddod yn rhai hysbysadwy wrth i amgylchiadau newid, er enghraifft: bwriad i gynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau eraill sy'n anghydnaws eu natur, materion ymarferol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, neu'r adnoddau sydd ar gael.
19. Os bydd y Trefnydd neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â threfnu'r cyfarfod neu'r digwyddiad neu'n gysylltiedig ag estyn y gwahoddiad yn ansicr a ddylid pennu bod y cyfarfod yn un hysbysadwy dylai gysylltu â'r Swyddog Awdurdodi o leiaf 30 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod neu'r gweithgaredd.
20. Bydd gan y Swyddog Awdurdodi awdurdod i benderfynu bod cyfarfod neu ddigwyddiad yn hysbysadwy naill ai ar ôl derbyn gwybodaeth gan y Trefnydd, ar ôl trafod â'r Trefnydd, neu yn unol â phenderfyniad y Swyddog Awdurdodi. Bydd penderfyniad y Swyddog Awdurdodi y dylid pennu bod cyfarfod neu weithgaredd yn un hysbysadwy yn derfynol.
21. Dylai unigolion sy'n pryderu am ddigwyddiad neu gyfarfod y maent o'r farn y dylai fod yn hysbysadwy gysylltu â'r Swyddog Awdurdodi.
22. Os bwriedir cynnal cyfarfod hysbysadwy, fel y'i diffinnir uchod, ar safleoedd y Brifysgol, rhaid i'r Trefnydd gyflwyno asesiad risg ysgrifenedig i'r Swyddog Awdurdodi, o leiaf 30 diwrnod ymlaen llaw fel rheol, sy'n cynnwys y wybodaeth isod:
 - i. enw a chyfeiriad y Trefnydd ac enw a chyfeiriad unigolyn sydd wedi'i benodi'n Brif Drefnydd ar y cyfarfod neu'r digwyddiad (y 'Trefnydd' yn y Cod hwn);
 - ii. enw unrhyw siaradwr gwadd ac unrhyw sefydliad y bydd yn ei gynrychioli neu y bydd yn gysylltiedig ag ef tra bydd ar dir y Brifysgol;
 - iii. dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod neu'r digwyddiad a phryd y disgwylir i unrhyw siaradwr gyrraedd a gadael, ynghyd â manylion ynghylch sut y bwriedir i'r siaradwr fynd i mewn ac allan o'r adeilad lle cynhelir y digwyddiad;
 - iv. pwnc trafod y cyfarfod neu'r gweithgaredd;
 - v. niferoedd staff y Brifysgol, myfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd a ddisgwylir yn y digwyddiad;
 - vi. y camau y mae'r Trefnydd yn bwriadu eu cymryd i reoli mynediad i'r digwyddiad, gan gynnwys, er enghraifft, dosbarthu tocynnau;
 - vii. sylwedd unrhyw fgythyadau i darfu ar y cyfarfod neu'r digwyddiad arfaethedig y mae'r Trefnydd wedi cael gwybod amdanynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol;
 - viii. natur y camau y mae'r Trefnydd a phawb sy'n gysylltiedig â'r Trefnydd o safbwynt trefnu'r cyfarfod neu'r digwyddiad yn bwriadu eu cymryd i sicrhau y diogelir rhyddid pob siaradwr i lefaru, yn unol â'r gyfraith. Gallai'r camau hyn gynnwys: trefniadau i sicrhau bod Cadeirydd y cyfarfod yn rheoli'r drafodaeth yn briodol, penodi stiwardiaid, a/neu roi cyfle i safbwyntiau'r naill ochr a'r llall gael eu lleisio yn y cyfarfod;
 - ix. natur y camau y mae'r Trefnydd a phawb sy'n gysylltiedig â'r Trefnydd o safbwynt trefnu'r cyfarfod neu'r digwyddiad yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod siaradwyr a

chanddynt safbwyntiau eithafol a allai ddenu pobl at derfysgaeth yn cael eu herio yn rhan o'r digwyddiad hwnnw, yn unol â'r ddogfen *HM Government Prevent Duty Guidance for Higher Education Institutions in England and Wales*; a

- x. natur unrhyw gyhoedduswydd arfaethedig, ac a fydd aelodau'r wasg, y teledu neu'r radio yn cael bod yn bresennol.
23. Ar ôl derbyn manylion y cyfarfod neu'r digwyddiad gan y Trefnydd, a chael statws Coch Oren Gwyrdd i'r siaradwr allanol oddi wrth Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru, lle bo hynny'n ofynnol yn unol â'r Ddyletswydd Atal, bydd y Swyddog Awdurdodi yn penderfynu cyn gynted ag y bo modd:
- i. y caiff y cyfarfod neu'r gweithgaredd fynd rhagddo heb ragor o gyfarwyddyd ynghylch y ffordd y caiff ei gynnal, a bydd yn anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad hwn at y Trefnydd; neu
 - ii. y caiff y cyfarfod neu'r gweithgaredd fynd rhagddo, yn amodol ar gyfarwyddyd ynghylch y ffordd y caiff ei gynnal fel y pennir gan y Swyddog Awdurdodi yn unol â pharagraffau 28 a 29, a bydd yn anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad hwn at y Trefnydd; neu
 - iii. y dylid, am ei bod yn bosib y gallai'r Cod hwn gael ei dorri, cyfeirio'r mater at Banel a fydd yn cynnwys: y Swyddog Awdurdodi; naill ai'r Cyfarwyddwr Cydraddoldeb neu'r Cyfarwyddwr Moeseg; y Cyfarwyddwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd; Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Campws a Masnachol; Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth; a chynrychiolydd yr Undebau Llafur. Caiff aelodau'r Panel ofyn i ddirprwy ystyried cynigion ar eu rhan. Bydd angen tri aelod o'r Panel i sicrhau Cworwm.
24. Os na fydd y Trefnydd yn cydsynio i'r trefniadau a bennir gan y Swyddog Awdurdodi ar gyfer y cyfarfod neu'r gweithgaredd caiff y mater ei gyfeirio at y Panel.
25. Pan gaiff cynnig ei gyfeirio ato, gall y Panel benderfynu y caiff y cyfarfod fynd rhagddo'n unol naill ai â pharagraff 23i neu 23ii. Fodd bynnag, os yw'n fodlon nad oes camau rhesymol ymarferol y gellir eu cymryd i sicrhau na chaiff Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol eu torri, gall benderfynu na cheir cynnal y cyfarfod neu'r digwyddiad ar dir y Brifysgol.
26. Pan fo'r Panel yn penderfynu y caiff y cyfarfod neu'r digwyddiad fynd rhagddo, bydd y Swyddog Awdurdodi'n rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Trefnydd. Pan fo'r Panel yn awdurdodi'r cyfarfod neu'r digwyddiad caiff osod y cyfryw ofynion a ganiateir ym mharagraffau 28 a 29, a bydd y Swyddog Awdurdodi'n rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Trefnydd amdanynt.
27. Os bydd y Panel yn penderfynu na chaiff y cyfarfod neu'r digwyddiad ei gynnal, bydd y Swyddog Awdurdodi'n rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Trefnydd am y penderfyniad a'r rhesymau drosto.
28. Mae gan y Swyddog Awdurdodi neu'r Panel rym i amrywio unrhyw rai o'u priod ofynion ar unrhyw adeg os daw rhagor o wybodaeth i law am y cyfarfod neu'r digwyddiad arfaethedig, ond unwaith y bydd y Swyddog Awdurdodi wedi cyfeirio'r mater at y Panel, ni chaiff y Swyddog Awdurdodi newid y penderfyniad hwnnw i gyfeirio'r mater.

29. Os bydd y Swyddog Awdurdodi'n penderfynu yn y lle cyntaf, heb gyfeirio at y Panel, neu os bydd y Panel yn penderfynu, y caiff y cyfarfod neu'r digwyddiad arfaethedig fynd rhagddo yn amodol ar gyfarwyddyd ynghylch y ffordd y caiff ei gynnal a'r lleoliad, gall gyfarwyddo'r Trefnydd ynghylch y ffordd y caiff:

- i. mynediad i'r cyfarfod neu'r gweithgaredd ei reoli'n briodol, gan gynnwys, er enghraifft, rheidrwydd i ddefnyddio cardiau adnabod neu docynnau;
- ii. dull cynnal y cyfarfod neu'r gweithgaredd ei reoli'n briodol, gan gynnwys, er enghraifft, y ffordd y caiff unrhyw ddadl ei chynnal, neu drefn unrhyw seddi neu stiwardio;

a bydd yn gwahodd y Trefnydd i drafod â'r Swyddog Awdurdodi neu'r Panel y trefniadau sydd yn ei farn ef neu ei barn hi yn ddymunol.

30. Yn ogystal â'r amodau a nodir uchod, bydd gan y Swyddog Awdurdodi a'r Panel ddisgresiwn i bennu rhagor o amodau, os yw hynny'n briodol, ar ôl trafod â'r heddlu. Gall yr amodau hynny gynnwys:

- i. y dylid dod o hyd i leoliad mwy addas i'r cyfarfod neu'r digwyddiad;
- ii. y dylid datgan bod y cyfarfod neu'r digwyddiad dynodedig yn un cyhoeddus (a fyddai'n golygu bod modd i'r heddlu fod yn bresennol);
- iii. trefnu bod staff y Brifysgol yn gyfrifol am drefniadau diogelwch y cyfarfod neu'r digwyddiad;
- iv. penodi aelod o'r staff yn 'Swyddog Rheoli' ar yr achlysur; a
- v. mynnu bod yn rhaid i'r cyfryngau gofrestru ymlaen llaw i fod yn bresennol yn y lleoliad lle cynhelir y digwyddiad.

31. Fel rheol, Trefnydd y digwyddiad fydd yn talu costau unrhyw fesurau a orfodir gan y Swyddog Awdurdodi neu'r Panel.

32. Os bydd y Swyddog Awdurdodi neu'r Swyddog Rheoli o'r farn yn ystod y cyfarfod:

- i. y caiff rhywun ei anafu os bydd y cyfarfod neu'r digwyddiad yn mynd rhagddo; neu
- ii. y caiff eiddo ei ddifrodi os bydd y cyfarfod neu'r digwyddiad yn mynd rhagddo; neu
- iii. y ceir tor cyfraith;

bydd yn gohirio'r cyfarfod neu'r digwyddiad neu'n ei ddirwyn i ben.

Torri'r Cod hwn

33. Os bydd staff neu fyfyrwyr y Brifysgol yn torri'r Cod hwn neu'n mynd yn groes iddo yn unrhyw ffordd gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn y sawl sy'n gyfrifol yn unol â'r hyn a bennir yn y Cod hwn.

34. Bydd unrhyw fyfyrwr neu aelod o staff y Brifysgol sy'n tarfu ar aelod o'r staff, myfyrwr neu aelod o'r Brifysgol, neu unrhyw siaradwr a wahoddir yn unol â gweithdrefnau'r Cod hwn, neu sy'n eu rhwystro rhag arfer eu hawl i ryddid i lefaru yn unol â'r gyfraith a rheolau arferol dadleuon cyhoeddus, pan fo'r unigolyn hwnnw'n cymryd rhan mewn cyfarfod neu ddigwyddiad sydd wedi'i awdurdodi gan y Brifysgol, yn torri'r Cod hwn a gellir cymryd camau disgyblu priodol.

Atodiad 1: Awdurdodi cyfarfodydd a digwyddiadau hysbysadwy – siart lif

